

amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran _____ Dyddiad geni _____

Enw _____

Cyfeiriad _____

Enw Arweinydd y Dosbarth _____



Gwersi Beiblaidd o lyfr Daniel

Cofiwch mai un llythyren yw ch,dd,ff,ng,ll,ph,rh,th



DARLLENWCH
Daniel 1: 1-21



ADNOD
ALLWEDDOL
Mathew 6: 33

Gwers 1 Daniel - Y Wlad Ddieithr


Roedd pobl Israel wedi gwneud pethau drwg yn aml ac roedd Duw wedi'u cosbi nhw. Y tro hwn, gadawodd Duw i frenin o wlad arall ddinistrio eu prifddinas a mynd â llawer o'r bobl i ffwrdd.

C Ar y map, rhwch enw:

1. Y ddinas a gafodd ei dinistrio.
2. Y wlad o ble y daeth y gelyn.

1.


3. Y brenin oedd yn arwain byddin y gelyn.



C Darllenwch adnod 2 ac ysgrifennu YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN beth aeth y brenin â nhw i'w rhoi yn nhrysordy ei dduw.

Roedd y brenin eisiau i rai o'r dynion roedd e wedi'u cymryd o'u gwlad eu hunain ddod i fyw yn ei balas ef i'w wasanaethu.

C Ticiwch dri gair i ddisgrifio'r Iddewon ifanc gafodd eu dewis i wasanaethu'r brenin dieithr.



3


1

3

Roedd y dynion ifanc hyn yn cynnwys pedwar o Jwda.

C Edrychwch ar adnodau 6 a 7 ac ysgrifennwch eu henwau iawn a'r enwau a gawson nhw pan aethon nhw i fyw ym Mabilon.

Hen Enw	Enw Newydd
1
2
3
4



4

Roedd y dynion ifanc hyn yn benderfynol o beidio ag anghofio'r gwir Dduw, hyd yn oed ym Mabilon lle roeddent yng nghanol duwiau ffug.

C Ysgrifennwch ar y bwydleni beth oedd y brenin yn eu rhoi i'r dynion ifanc i'w fwyta a beth roedd Daniel a'i ffrindiau eisiau yn lle hynny.

<p>Bwydlen y Brenin</p> <p>1.....</p> <p>2.....</p>
--

<p>Bwydlen yr Hebreaid</p> <p>1.....</p> <p>2.....</p>

4

Roedd Daniel yn gwrthod bwyta bwyd oedd wedi cael ei gynnig i dduwiau ffug. Yn lle hynny, gofynnodd am ddim ond llysiau am ddeg diwrnod. Ar ddiwedd y deg diwrnod, roedd Daniel yn siŵr y byddai ef a'i ffrindiau yn dal i edrych yn iach! Hyd yn oed yn bwysicach na hynny, byddent wedi bod yn ffyddlon i ddeddfau Duw.

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol a rhowch linell o dan y gair sy'n dangos pa le y dylen ni ei roi i Dduw yn ein bywydau.

2

Roedd Daniel a'i ffrindiau bob amser yn barod i wneud beth y mae'r adnod hon yn ei ddweud.

C Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw'r brawddegau isod yn GYWIR neu'n ANGHYWIR:-

- Roedd y dynion ifanc o Jwda wedi colli pwysau a mynd yn sâl.
- Rhoddodd Duw wybodaeth a dealltwriaeth i'r dynion ifanc.
- Roedd y dynion ifanc ddeg gwaith yn fwy doeth a deallus na dewiniaid y brenin.

3

Os dywedwn ni "NA" pan gawn ein temtio i wneud pethau drwg a "IE" pan gawn gyfle i wneud pethau da, efallai na fydd pawb yn ein hoffi, ond bydd Duw yn ein bendithio fel y bendithiodd ef y dynion ifanc hyn..



DARLLENWCH
Daniel 2: 48-49,
3: 1-30



ADNOD
ALLWEDDOL
Daniel 3: 17

Gwers 2 Daniel - Y Ffwrnais Danllyd

Roedd Duw yn bendithio Daniel. Ar ôl iddo wneud safiad (Daniel 1) ac esbonio breuddwyd y brenin (Daniel 2), cafodd swyddi newydd a gwell.

C Darllenwch Daniel 2: 48 ac ysgrifennu beth oedd ei ddwy swydd newydd.

2

Hefyd, gofynnodd Daniel i'r brenin roi swyddi newydd i'r tri ffrind, Sadrach, Mesach ac Abednego a chytunodd y brenin.

Un diwrnod, gwnaeth y Brenin Nebuchadnesar ddelw fawr.


C

1. Pa mor uchel oedd y ddelw?

2. Pa mor llydan oedd y ddelw?

3. Lle cafodd ei chodi?

4. O beth gafodd hi ei gwneud?




4

Gwaeddodd y cyhoeddwr yn uchel beth yr oedd yn rhaid i bawb ei wneud pan oedd y ddelw'n barod.


C Darllenwch adnod 5 ac ysgrifennu YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN beth a ddywedodd y cyhoeddwr.

2

C Rhowch gylch o gwmpas yr ateb cywir i ddangos beth oedd y gosb i'r rhai oedd yn gwrthod gwrandao ar orchymyn y brenin.



Carchar



Llosgi



Crogi



Taflu cerrig atynt

1

C Darllenwch adnodau 13 ac 14 ac ysgrifennu yn y bocsys pw y oedd wedi gwrthod addoli'r ddelw.

3

Dewisodd y dynion hyn ufuddhau i Dduw yn hytrach nag i'r Brenin. Dim ond Duw roedden nhw'n fodlon ei addoli.

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol a rhoi llinell o dan y geiriau sy'n pwysleisio beth y mae Duw'n gallu ei wneud i'r rhai sy'n ymddiried ynddo.

2


CROESAIR

Cliwiau ar Draws

3. Cafodd y dynion eu taflu i _____ dân. (Adnod 20)
5. Dywedodd Nebuchadnesar mai _____ oedd wedi achub y dynion (Adnod 28)

Cliwiau i Lawr

1. Sawl dyn gafodd eu taflu i'r tân?
2. Sawl gwaith poethach nag o'r blaen gafodd y ffwrnais ei thwymo?
3. Cafodd y milwyr eu llosgi gan _____ y ffwrnais. (Adnod 23)
4. Enwau'r dynion gafodd eu taflu i'r ffwrnais oedd _____, Mesach ac Abednego.



6

Roedd y brenin wedi synnu gymaint o weld pedwar dyn yn y ffwrnais, fel y gorchynnodd i Sadrach, Mesach ac Abednego ddod allan ar unwaith. Doedden nhw ddim wedi llosgi o gwbl. Roedd yn wrth! Doedd dim hyd yn oed aroglau mwg ar eu dillad! Roedd Duw wedi eu hachub! Pan fyddwn ni'n Gristnogion (yn dilyn Iesu Grist), mae Duw yn gofalu amdanom. Rydyn ni yn ei ddwylo ef. Pan fyddwn ni'n barod i sefyll i fyny drosto ef, bydd ef wrth ein hochr ni. Dydi e ddim yn addo bywyd hawdd i ni, ond mae'n addo bod gyda ni pan fydd bywyd yn anodd.

Darllenwch Ioan 10: 28 i weld yr addewid fawr a wnaeth Iesu Grist i bawb sy'n ei ddilyn.

C Pa adnod sy'n dweud wrthym nad oedden nhw'n fodlon addoli'r ddelw aur? _____

1



DARLLENWCH
Daniel 5: 1-31



ADNOD
ALLWEDDOL
Daniel 5: 23

Gwers 3 Daniel – Y Llaw Ryfedd

Mae pawb yn mwynhau parti. Rydyn ni'n cael parti Nadolig, parti pen-blwydd neu i ddathlu rhywbeth arbennig arall. Ond roedd y parti yn y darlleniad o'r Beibl yn un rhyfedd iawn. Dychmygwch eich bod yn ohebydd papur newydd a gafodd eich anfon i'r wledd arbennig hon i gael ffeithiau ar gyfer 'Herald Babilon'. Dyma rai cwestiynau y byddech yn eu gofyn.

C Ysgrifennwch yr atebion yn llyfr y gohebydd.

NODIADAU

1. Pwy drefnodd y wledd?

2. Faint o bobl ddaeth?

3. Beth oedd y brenin eisiau eu defnyddio fel cwpanau?

.....

4. Pa dduwiau oedden nhw'n eu canmol?

.....

.....

5. Beth welson nhw ar y wal?

.....

6. Sut wnaeth y brenin ymateb?

Nodwch ddau beth a ddigwyddodd iddo.

.....

.....

1
1

2
1

3
1

4
2

5
1

6
2

C Ticiwch un o'r atebion i ddangos beth wnaeth y doethion..

- Fe ddywedon nhw wrth y brenin bod Duw yn falch ohono.
- Fe ddywedon nhw nad oedd y neges yn bwysig.
- Fe ddywedon nhw nad oedden nhw'n gwybod ystyr y neges.



Roedd y brenin yn poeni'n ofnadwy. Roedd yn gwybod bod Duw yn siarad ag ef ond doedd e ddim yn gwybod beth oedd ystyr y neges.

C Llanwch y bylchau i ddangos beth ddigwyddodd wedyn.


doethineb frenhines Daniel Nebuchadnesar
 Daeth y _____ i'r neuadd a dweud wrth y brenin bod dyn o'r enw
 _____ wedi dangos _____ a deall wrth helpu tad y brenin, sef
 _____. Daeth Daniel ac atgoffa Belsassar fod ei dad wedi bod yn frenin
 mawr
 ond bod un pechod ofnadwy wedi difetha ei fywyd.



C Llanwch y GRID GEIRIAU, gan ateb y cliwiau. Wedyn lliwiwch y gair sy'n darllen ar draws ac sy'n dweud beth oedd y pechod hwnnw.

(“Ond pan ymffrostiodd a mynd yn _____, fe'i diorseddwyd a chymerwyd ei ogoniant oddi arno.”)

1. Doedd Doethion y brenin Belsassar ddim yn deall ystyr yr _____ ar y wal. (a15)
2. Ar ôl iddo bechu, aeth Nebuchadnesar, tad Belsassar, fel _____ (a21)
3. Yn awr, yr oedd Belsassar ei hunan wedi herio _____ y Nefoedd (a23)
4. Am iddo esbonio'r geiriau ar y wal, cafodd Daniel wisg borffor a _____ aur am ei wddf.



C Ysgrifennwch ran olaf yr Adnod Allweddol yn dechrau â'r geiriau sy'n dangos y wers yr oedd yn rhaid i Belsassar ei dysgu ac y mae'n rhaid i ninnau hefyd ei dysgu.

Two empty rectangular boxes for writing the answer.



Cafodd Belsassar ei gosbi gan Dduw a bu farw'r noson honno. “Y mae cyflog yn talu pechod, sef marwolaeth; ond rhoi yn rhad y mae Duw, rhoi bywyd tragwyddol yng Nghrist Iesu ein Harglwydd”. (Rhufeiniaid 6:23) Gallwch ofyn i Dduw faddau'ch pechodau ac fe gewch fywyd tragwyddol trwy ymddiried yn Iesu Grist.





DARLLENWCH
Daniel 6: 1-28




ADNOD
ALLWEDDOL
Daniel 6: 22

Gwers 4 Daniel – Ffau'r Llewod

Erbyn hyn, roedd brenin newydd o'r enw Dareius ar y wlad. Penododd ef 120 o lywodraethwyr a thri rhaglaw i reoli'r wlad. Roedd Daniel yn un o'r rhain. Mae'n debyg nad oedd pob un ohonyn nhw'n onest. Roedd Daniel bob amser yn dweud y gwir a doedd y lleill ddim yn ei hoffi am nad oedd yn fodlon gwneud pethau drwg. Roedden nhw'n ceisio troi'r brenin yn ei erbyn ond doedden nhw ddim yn gallu meddwl am ddim byd drwg yr oedd wedi'i wneud.

C Beth ddywedon nhw? (Adnod 5)



2

Byddai brenin doeth yn amau bod rhyw ddrwg yn y caws ond fe wnaethon nhw i Dareius deimlo'n bwysig.

C Rhowch rif y disgrifiad cywir o dair rhan y cynllwyn o dan y lluniau.

1. Byddai'r Brenin Dareius yn rhoi gorchymyn.
2. Dim ond i'r brenin y byddai hawl gweddio dros y 30 diwrnod nesaf.
3. Y gosb am dorri'r gorchymyn fyddai cael eich taflu i ffau'r llewod.



Disgrifiad 1



Disgrifiad 2



Disgrifiad 3

3


C Darllenwch adnodau 10 ac 11 ac yna, YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN, disgrifiwch beth wnaeth Daniel. Defnyddiwch y geiriau a'r ymadroddion isod yn eich disgrifiad.

7

penlinio gweddio deirgwaith y dydd gartref Jerwsalem diolch i Dduw ffenestri

Byddai'n well gan Daniel gael ei fwyta gan lewod na pheidio â gwrando ar Dduw. Bod yn ufudd i Dduw oedd y peth pwysicaf yn ei fywyd. Pan gafodd wybod fod Daniel wedi gweddio ar ei Dduw, doedd gan y brenin ddim dewis ond gorchymyn iddo gael ei daflu i ffau'r llewod.

C Edrychwch ar Adnod 16 ac ysgrifennwch beth ddywedodd y brenin wrth Daniel i'w galonogi.



Roedd y brenin yn poeni cymaint am Daniel fel na chysgodd winc drwy'r nos. A oedd Duw Daniel yn ddigon cryf i sicrhau na fyddai'r llewod yn ei larpio? Ar doriad gwawr, cododd y brenin a mynd yn syth at y ffau. Yn siwr i chi, roedd gwyर्थ wedi digwydd!

C Ticiwch y pum ateb cywir.

Roedd Daniel yn ddiogel oherwydd ...

... doedd dim eisiau bwyd ar y llewod. (DA)	... roedd y llewod yn cysgu. (DO)
... roedd Duw yn ei warchod. (YM)	... Duw sy'n rheoli llewod. (ED)
... roedd yn ufudd i Dduw. (DDI)	... roedd Duw yn gwybod ei fod yn ddiuog. (ODD)
... doedd dim golwg flasmus arno. (BU)	... llewod cyfeillgar oedden nhw. (RI)
... roedd angel Duw gydag ef. (RI)	

C Mae rheswm arall pam na chafodd Daniel ei fwyta gan y llewod, a pham nad oedd ofn arno ddal ati i weddio. Copiwch y llythrennau o'r blychau ateb yr ydych wedi'u ticio yn y llefydd gwag hyn.

_____ Daniel yn Nuw.



Go brin y cewch chi'ch taflu i ffau'r llewod, ond mae pobl yn siwr o'ch beirniadu os gwnewch chi ddilyn Iesu Grist.

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol sy'n ein helpu ni i ddeall sut y gall Duw ein helpu.



Pan fyddwch yn gweddio, gofynnwch i Dduw'ch helpu chi i ymddiried ynddo, hyd yn oed pan fydd pethau'n anodd i chi.

cyfanswm

Marciau
[i'w nodi gan yr athro]

Cyfanswm
Cyfanswm llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120